Fy nhaith ddysgu yn Ngwyddoniaeth/Technoleg/TGCh
My learning journey in Science and Technology/ICT



Uned ymholi/Enquiry unit: **Sut allwn ni ddylunio a gwneud golau nos sy'n diwallu anghenion a dymuniadau marchnad darged benodol?**

Gwybodaeth a dysgu blaenorol/Prior knowledge and learning:

Rwy'n gallu cynhyrchu a chyfathrebu syniadau dylunio mewn ymateb i friff.

Rwy'n gallu mesur, marcio allan a defnyddio offer llaw a pheiriannau sylfaenol yn ddiogel.

Rwy'n gallu defnyddio meddalwedd CAD sylfaenol ac rwy'n deall bod CAD/CAM yn cael ei ddefnyddio i ddylunio a gweithgynhyrchu cynhyrchion.

Yn ystod eich taith mi fyddwch yn …

During your journey you will …

gallu ymchwilio i anghenion a dymuniadau marchnad darged gan ddefnyddio holiadur Microsoft Forms.

gallu dadansoddi data, cyfrifo onglau a chyflwyno canlyniadau mewn siartiau cylch.

gallu dadansoddi cynnyrch presennol a chreu manyleb gan ddefnyddio ACCESSFMM.

gallu cynhyrchu a datblygu syniadau ar bapur ac ar TechSoft CAD, gan gynnwys lluniad orthograffig.

gallu deall sut mae lliwiau a llinellau CAD yn cyfathrebu gwahanol ddyfnderoedd torri ac ysgythru.

gallu cynllunio trefn gwneud a defnyddio llif ymdopi, dril piler, sandiwr disg a ffurfiwr gwactod yn ddiogel.

gallu adeiladu a phrofi cylched electronig syml ar gyfer golau nos.

gallu profi a gwerthuso cynnyrch terfynol yn erbyn y fanyleb ac awgrymu gwelliannau.

Yr ydym ar y daith hon oherwydd ...

cyfranwyr mentrus, creadigol: sy'n cysylltu ac yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu syniadau a chynhyrchion

sy'n meddwl yn greadigol i ail-lunio a datrys problemau

sy'n cymryd risgiau pwyllog wrth ddatblygu a gwneud syniadau

sy'n defnyddio technolegau digidol yn greadigol ac yn effeithiol

dysgwyr uchelgeisiol, galluog

sy'n gosod safonau uchel i'w hunain ac yn ceisio ac yn mwynhau her

sy'n adeiladu corff o wybodaeth ac yn cymhwyso'r wybodaeth honno mewn gwahanol gyd-destunau

sy'n cwestiynu, yn dadansoddi tystiolaeth ac yn mwynhau datrys problemau

sy'n gallu cyfathrebu'n effeithiol drwy luniadau, data, testun ac iaith dechnegol

sy'n gallu defnyddio rhif yn effeithiol wrth fesur, graddio a dadansoddi data

AS

Eich tasgau/Your tasks:



Tasg/k 1: Ymchwilio i anghenion a dymuniadau'r farchnad darged, dadansoddi data a chreu manyleb ACCESSFMM.

Tasg/k 2: Cynhyrchu a datblygu syniadau ar bapur ac ar TechSoft CAD, gan gynnwys lluniad orthograffig a chynllun gwneud.

Tasg/k 3: Gan ddefnyddio offer a chyfarpar priodol, gweithgynhyrchu'r sylfaen, y panel a'r gylched electronig yn gywir ac yn ddiogel.

Tasg/k 4: Profi a gwerthuso'r golau nos terfynol yn erbyn y fanyleb gan ddefnyddio geirfa dechnegol briodol ac awgrymu gwelliannau.